


Archwilio Effaith


Blaenoriaeth 1: Gwreiddio cynhwysiant digidol ar draws pob sector



Mehefin 2025




Canlyniadau meintiol o'r arolwg

- Cafwyd 19 ymateb i'r arolwg.
- Cynhwyswyd yr un cwestiynau o arolwg Mawrth 2024 ar gyfer Blaenoriaeth 1. Mae adroddiad Archwilio Effaith ar gyfer Blaenoriaeth 1 o fis Mawrth 2024 ar gael yma:
<https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/adroddiadau-archwilio-effaith/>
- Cytunodd 63% o'r ymatebwyr fod Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer y Strategaeth Ddigidol i Gymru yn cwmpasu canlyniadau Agenda Cynhwysiant Digidol CCDC. Mae hyn i lawr o 70% ym mis Mawrth 2024.
- Roedd ymwybyddiaeth o sut mae cynhwysiant digidol yn cyfrannu at saith Nod Llesiant cenedlaethol Cymru yn uchel, gyda 84% o'r ymatebwyr yn cytuno. Mae hyn, fodd bynnag, yn llai na'r 87% o arolwg mis Mawrth 2024.
- Dim ond 47% o'r ymatebwyr a gytunodd fod cynhwysiant digidol defnyddwyr gwasanaethau a staff wedi'i ymgorffori fel elfen graidd o bob prosiect trawsnewid digidol yn y sector cyhoeddus. Ym mis Mawrth 2024, roedd 65% yn cytuno â'r datganiad hwn.
- Dim ond 21% o'r ymatebwyr a gytunodd fod y sector preifat yn helpu i fynd i'r afael ag allgáu digidol ledled Cymru, gyda 53% yn ansicr. Mae hyn yn newid amlwg o fis Mawrth 2024 pan oedd 52% yn cytuno a 34% yn ansicr.
- Roedd hyder bod CCDC wedi cael effaith gadarnhaol ar sefydliadau sy'n ymgorffori cynhwysiant digidol yn is, gyda 89% yn cytuno â'r cwestiwn hwn, o'i gymharu â 96% ym mis Mawrth 2024.
- Mae 53% o'r ymatebwyr yn perthyn i grwpiau lle maen nhw'n trafod ymgorffori cynhwysiant digidol mewn sefydliadau. Unwaith eto, mae'r ffigur hwn i lawr o 78% ym mis Mawrth 2024.







Mae'r sector preifat, gan gynnwys darparwyr cyfathrebiadau, busnesau bach a chanolig a microfusnesau, yn helpu i fynd i'r afael ag allgáu digidol ledled Cymru.



Mae Cyngorair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi cael effaith gadarnhaol ar sefydliadau sy'n gwreiddio cynhwysiant digidol yng Nghymru.



Ydych chi'n aelod o unrhyw fyrddau/partneriaethau/grwpiau lle rydych chi'n trafod gwreiddio cynhwysiant digidol mewn sefydliadau neu sectorau?



Dadansoddi cynnwys dogfennau polisi a strategaeth

- Chwiliwyd dogfennau am y termau allweddol: cynhwysiant digidol, allgáu digidol, Cynghair Cynhwysiant Digidol Cymru, cysylltedd (digidol), hygyrchedd (digidol), sgiliau (digidol) ac ymgorffori (digidol).
- Mae Strategaeth Ddigidol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wedi'i chynnwys fel enghraifft o strategaeth ddigidol gan y sector cyhoeddus sydd â chynhwysiant digidol wedi'i ymgorffori ynddi fel thema allweddol. Defnyddiodd Felindre addewidion Siarter Cynhwysiant Digidol Cymunedau Digidol Cymru fel cymorth i ymgorffori cynhwysiant digidol ar draws yr Ymddiriedolaeth. Gallwch ddarllen mwy am Achrediad y Siarter Cynhwysiant Digidol yn yr astudiaeth achos isod.

	Cynhwysiant Digidol	Allgáu Digidol	Cynghair Cynhwysiant Digidol Cymru	Cysylltedd (Digidol)	Hygyrchedd (Digidol)	Sgiliau (Digidol)	Ymgorffori	Cyfanswm
Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	0	0	0	0	0	0	0	0
Rhagoriaeth Ddigidol: Ein Strategaeth 2023–2033, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	10	1	1	2	0	1	0	15

Astudiaethau Achos

Astudiaeth Achos – Achrediad y Siarter Cynhwysiant Digidol Cymunedau Digidol Cymru

Trosolwg

Mae allgáu digidol yn parhau i fod yn her barhaus yng Nghymru, gan effeithio'n anghymesur ar y rhai sydd angen gwasanaethau cyhoeddus fwyaf. Mae Achrediad y Siarter Cynhwysiant Digidol, a ddatblygwyd gan raglen Cymunedau Digidol Cymru, yn cynnig ffordd strwythuredig ac effeithiol i sefydliadau ymgorffori cynhwysiant digidol yn eu gweithrediadau craidd. Drwy ymrwymo i chwe addewid, mae sefydliadau'n dangos arweiniad wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb digidol a chefnogi dinasyddion i gael mynediad at offer a gwasanaethau digidol ac elwa ohonyn nhw.

Pam mae achrediad yn bwysig?

Nid rhywbeth symbolaidd yn unig yw ennill Achrediad y Siarter – mae'n fframwaith ymarferol sy'n helpu sefydliadau i fabwysiadu dull sy'n sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei ymgorffori ar draws y sefydliad cyfan. Fel rhan o'r broses achredu, rhaid i sefydliadau ddatblygu cynllun gweithredu sy'n amlinellu sut byddan nhw'n cyflawni pob un o'r chwe addewid yn eu cyd-destun eu hunain. Mae'r addewidion hyn yn tywys sefydliadau i:

- Ddatblygu sgiliau digidol ymhlith staff a gwirfoddolwyr
- Ymgorffori egwyddorion cynhwysiant digidol mewn gweithrediadau dyddiol
- Cefnogi eraill i fynd ar-lein a meithrin hyder
- Dyrannu adnoddau i fentrau cynhwysiant digidol
- Rhannu arferion gorau am effaith gydlynol
- Adeiladu partneriaethau lleol i gryfhau ymdrechion

Mae'r dull strwythuredig hwn yn sicrhau nad yw cynhwysiant digidol yn brosiect untro, ond yn ymrwymiad parhaus sydd wedi'i blethu i ffabrig diwylliant sefydliadol.

Effaith

Mae sefydliadau ar draws sectorau fel ieuchyd, tai a gofal cymdeithasol wedi defnyddio Achrediad y Siarter fel catalydd i ymgorffori cynhwysiant digidol yn eu gwasanaethau. Mae'r ymdrechion hyn yn cyfrannu at nodau ehangach fel ecwiti ieuchyd, cydlyniant cymunedol, a chyfranogiad economaidd, gan gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Manteision strategol

Mae achrediad yn cefnogi sefydliadau i:

- Alinio â strategaethau digidol cenedlaethol a blaenoriaethau ariannu
- Gwellu darpariaeth gwasanaethau drwy sicrhau mynediad digidol a llythrennedd
- Meithrin trawsnewidiad digidol cynhwysol ar draws adrannau

- Meithrin gwydnwch drwy fynd i'r afael â thlodi data a bylchau mewn sgiliau digidol

Edrych tua'r dyfodol

Er bod rhaglen Cymunedau Digidol Cymru yn dod i ben ar 30 Medi 2025, mae chwe addewid y Siarter Cynhwysiant Digidol yn parhau i fod yn offeryn gwerthfawr i sefydliadau. Anogwn sefydliadau'n gryf i barhau i ddefnyddio'r addewidion hyn fel fframwaith ar gyfer eu strategaethau cynhwysiant digidol eu hunain. Drwy greu cynlluniau gweithredu teilwredig, gall sefydliadau gynnal momentwm a sicrhau bod cynhwysiant digidol yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'u cenhadaeth.

Mae Achrediad y Siarter Cynhwysiant Digidol yn grymuso sefydliadau i arwain trwy esiampl, gan sicrhau bod trawsnewidiad digidol o fudd i bawb. Mae'n cynnig map ffordd i ymgorffori cynhwysiant, meithrin cydweithio, a gyrru newid systemig ledled Cymru.

Gallwch ddarllen am yr holl sefydliadau sydd wedi cyflawni Achrediad y Siarter Cynhwysiant Digidol yma: <https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/achrediad-siarter-cynhwysiant-digidol/>

Thank you for reading.

Get in touch: diaw@cwmpas.coop

Follow us: [@DIAWales](https://twitter.com/DIAWales)

